

Safonau dychwelyd i ymarfer

Cyhoeddwyd 20 Mai 2019

Safonau dychwelyd i ymarfer

Mae ein safonau Cofrestru ac ailddilysu yn nodi isafswm nifer yr oriau ymarfer y mae'n rhaid i nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio eu cwblhau er mwyn aros ar ein cofrestr neu ail-ymuno â hi. Mae'n rhaid i bobl nad ydynt yn cyrraedd y gofynion hyn o ran oriau ymarfer sy'n dymuno aros ar ein cofrestr neu ail-ymuno â hi gwblhau rhaglen dychwelyd i ymarfer a gymeradwywyd gan yr NMC yn llwyddiannus, neu lwyddo ym mhrawf cymhwysedd yr NMC.

1. Safonau ailychwanegu¹

Er mwyn bod yn gymwys i gael eich ailychwanegu at y gofrestr, mae'n rhaid i chi fod wedi gwneud y canlynol:

- cwblhau 750 awr o ymarfer yn ystod y pum mlynedd flaenorol, neu
- gwblhau 450 awr o ymarfer yn ystod y tair blynedd flaenorol, neu
- gwblhau'r nifer cyfwerth o oriau o ymarfer cofrestredig tra oeddech chi wedi cofrestru â'r rheoleiddiwr perthnasol dramor, neu
- cwblhau cymhwyster cyn-cofrestru cymeradwy yn y DU cyn pen 5 mlynedd, neu
- gwblhau rhaglen dychwelyd i ymarfer sydd wedi'i chymeradwyo gan NMC, neu
- basio prawf cymhwysedd NMC.

2. Safonau ailddilysu

I'r rheini nad ydynt wedi cwblhau'r lleiafswm oriau ymarfer

Os ydych chi wedi ymarfer am lai o oriau na'r nifer sy'n ofynnol yn ystod y tair blynedd ers i'ch cofrestriad gael ei adnewyddu ddiwethaf (neu ers i chi ymuno â'r gofrestr) bydd rhaid i chi wneud y canlynol cyn dyddiad eich cais am adnewyddu'ch cofrestriad:

- cwblhau rhaglen dychwelyd i ymarfer sydd wedi'i chymeradwyo gan NMC, neu
- basio prawf cymhwysedd NMC.

¹ Pennir y safonau hyn o dan Erthygl 19(3) o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 (y Gorchymyn) Rheol 3(4)(a) o'r Rheolau Addysg, Cofrestru ac Apeliadau Cofrestru 2004.

Oriau Ymarfer

Cofrestrriad	Cyfanswm yr oriau ymarfer gofynnol angenrheidiol
Nyrs	450
Bydwraig	450
Nyrs a SCHPN (Nyrs/SCPHN)	450
Bydwraig a SCHPN (Bydwraig/SCPHN)	450
Nyrs a bydwraig (gan gynnwys Nyrs/SCHPN a Bydwraig/SCHPN)	900 (i gynnwys 450 o oriau ar gyfer nyrsio, 450 o oriau ar gyfer bydwreigiaeth)
Cydymaith nyrsio	450
Cydymaith nyrsio*	900 (i gynnwys 450 o oriau ar gyfer cydymaith nyrsio, 450 o oriau ar gyfer nyrsio)
Cydymaith nyrsio a bydwraig*	900 (i gynnwys 450 o oriau ar gyfer cydymaith nyrsio a 450 o oriau ar gyfer bydwreigiaeth)

* Mae cofrestrriad driphlyg ar gyfer nyrs, bydwraig a chydymaith nyrsio hefyd yn bosibl; byddai hyn yn gofyn am 1,350 o oriau ymarfer.

Rôl y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

Yr hyn a wnawn

Ni yw'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer nyrsys, bydwagedd a chymdeithion nyrsio. Mae gennym gofrestr sy'n cynnwys tua 700,000 o nyrsys, bydwagedd a chymdeithion nyrsio a all ymarfer yn y DU.

Mae gofal gwell a mwy diogel wrth wraidd yr hyn a wnawn, gan gynorthwyo'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ar ein cofrestr i ddarparu gofal o'r safon uchaf.

Rydym yn sicrhau bod nyrsys, bydwagedd a chymdeithion nyrsio yn meddu ar y sgiliau y mae eu hangen arnynt i ofalu am bobl yn ddiogel, gydag uniondeb, arbenigedd, parch a thosturi, o'r eiliad y byddant yn cychwyn yn eu swydd gyntaf.

Nid yw dysgu yn stopio ar y diwrnod pan fydd nyrsys, bydwagedd a chymdeithion nyrsio yn cymhwyso. Er mwyn hyrwyddo diogelwch ac ymddiriedaeth y cyhoedd, rydym yn gofyn i weithwyr proffesiynol ddangos trwy gydol eu gyrfa eu bod wedi ymrwymo i ddysgu a datblygu er mwyn diweddarau eu sgiliau a gwella fel ymarferwyr.

Rydym yn dymuno annog gweithredu agored a dysgu ymhlith proffesiynau gofal iechyd, er mwyn gwella gofal a chadw'r cyhoedd yn ddiogel. Ar yr achlysuron pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le a bydd pobl mewn perygl, gallwn gamu i mewn er mwyn ymchwilio a gweithredu, gan roi llais i gleifion a theuluoedd wrth i ni wneud hynny.

Cymeradwywyd y safonau hyn gan y Cyngor yn ystod ei gyfarfod ar 27 Mawrth 2019.